**CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR:**
**Cofnodion Cyfarfod**
**1af Tachwedd 2023 yn Y Ganolfan, Penmynydd**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng. Heulwen Owen, Nia Jones, D.Idriswyn Roberts, Heulwen Owen.<br>Cynghorwyr Sirol :<br>Clerc: Gillian Morris | |
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU**<br>Dewi Gwyn (Cadeirydd), Llinos Roberts, Janet Jones.<br>Robin Williams, Sonia Williams (Cynghorwyr Sirol) |
| **2.** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| **3.** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 01/10/2023. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. NJ yn cynnig, DIR yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | Llwybrau Cyhoeddus - Clerc yn disgwyl ymateb gan Norman Jones am bris i dorri a thwtio y llwybrau. |
| **4.3** | Hysbysfyrddau - Clerc wedi cysylltu gyda Sign & Design ac yn disgwyl ymateb. |
| **5.0** | **Materion ariannol** |
| **5.1** | Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog. |
| **5.2** | Taliadau - Cymeradwyo taliadau. |
| **5.3** | PAYE - Clerc i wirio taliadau PAYE blwyddyn 2022-2023. |
| **5.4** | Archwilio Cymru - Anfoneb ar gyfer archwiliad 2017/2018 heb ei dalu gan y Clerc blaenorol. |
| **6.0** | **GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **6.1** | Lon Beddau Bach, Rhoscefnhir - Cau ffordd dros dro. |
| **7.0** | **Ceisiadau Cynllunio** |
| **8.0** | **Gohebiaeth Ychwanegol** |
| **8.1** | Pont Menai - UK Highways A55-adroddiad ar gyfer y gwaith adnewyddu. |
| **8.2** | Llywodraethwyr Ysgol Llanfairpwll- Cafwyd adroddiad gan Gareth Cemlyn Jones o Gyngor Bro Llanfairpwll. Hefyd trafodwyd bod yna sedd wag ar gael. Enw wedi ei dderbyn gan Gyngor Bro Llanfairpwll. Clerc i yrru ebost os oes diddordeb gan Gynghorwyr Penmynydd a Star. |
| **8.3** | Ceisiadau Ariannol - Clerc wedi derbyn ceisiadau ariannol. Cyngor ddim yn gwneud cyfraniadau yn y flwyddyn ariannol yma. |
| **8.4** | Archwilio Cymru - Clerc wedi derbyn ebost yn datgan nad oeddent wedi derbyn 3 blynedd o gyfrifon, wedi ymateb gyda dyddiadau'r ebost sydd yn cadarnhau eu bod wedi ei derbyn. |
| **9.0** | **Materion Eraill** |
| **9.1** | Elusendai (diweddariad)- Cafwyd diweddariad gan DIR ynglŷn â'r diwrnod agored, wedi bod yn llwyddiannus disgwyl adroddiad ynglyn a ffigyrau/galw ayyb. |

| | |
|---|---|
| 9.2 | Y Ganolfan: Cyfrifoldebau<br>Enw'r Cyngor Cymuned sydd ar brydles y Ganolfan gan CSYM ac mae cyfrifoldebebau statudol gennym fel Cyngor yn sgil hyn. Trafodwyd a chytunwyd ar rhain gyda Chadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan a gwelir holl gyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned a'r Phwyllgor Rheoli'r Ganolfan yn y ddogfen Cyfrifoldebau'r Ganolfan.<br>**Cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned**<br>Yswirio'r adeilad a thalu'r rhent, cadw arian wrth gefn i gyllido argyfwng (ee boeler newydd/difrod), cadw cofrestr asbestos a threfnu arolwg Legionella os oes angen, **cyllido'r** profion PAT, gwasanaethu'r boeler / tystysgrif nwy a gwasanaethu'r diffoddyddion tân, trefnu a chyllido gwaith torri llystyfiant o amgylch y Ganolfan a'r maes parcio, cadw cofnod o hyfforddiant aelodau'r Cyngor a'r Clerc, gwirio'r deffibrilyddion a threfnu hyfforddiant CPR, hysbysfyrddau.<br>**Cyfrifoldebau Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan**<br>Arolwg blynyddol o'r adeilad (mewnol ac allanol) a'r maes parcio a chwblhau rhestr wirio'r HSE, cwblhau asesiad risg a'i adolygu'n flynyddol, **trefnu** profion PAT, gwasanaethu'r boeler a'r diffoddyddion tân a chael tystysgrif nwy. (copi o unrhyw dystysgrif i'w yrru at y Clerc), cadw cofnod o hyfforddiant y pwyllgor ac unrhyw wirfoddolwyr, sicrhau bod blwch cymorth cyntaf yn cael ei wirio'n gyson, cadw cofnod o unrhyw ddamwain yn y Llyfr Damweiniau, cyflwyno adroddiad llafar yng nghyfarfod mis Hydref y Cyngor, cynnal a chadw, bod yn ymwybodol o'r risgiau wrth ddarparu bwyd (Mae Pwyllgor Y Ganolfan am edrych i mewn i Natasha's Law ynglŷn â gweini bwyd mewn digwyddiadau yn Y Ganolfan.) |
| **9.3** | Adnewyddu yr yswiriant -<br>Pawb yn cytuno i adnewyddu. |
| **10.0** | **EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** |
| **10.1** | Cynghrair Aethwy |

**Llofnod** **Dyddiad**